**Atodiad 1**

**Gorchymyn a Wneir dan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972**
**Gorchymyn Cyngor Tref Bodelwyddan (Penodi Aelod Dros Dro) 2017**

Gwneir y GORCHYMYN HWN ar y 23ain diwrnod o Fai 2017 gan Gyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor Sir").

1. Yn dilyn penderfyniad diweddar gan unigolyn a etholwyd i Gyngor Tref Bodelwyddan ("y Cyngor Tref") i beidio â derbyn swydd fel Cynghorydd, mae angen un Cynghorydd arall er mwyn bodloni'r isafswm o unigolion sy'n angenrheidiol i greu cworwm.

2. O dan Adran 91 Deddf Llywodraeth Leol 1972, pan fo cymaint o swyddi gwag yn swyddfa'r Cynghorwyr Tref, nid yw'r Cyngor Tref bellach yn gallu gweithredu, gall y Cyngor Sir, drwy orchymyn, benodi unigolyn neu unigolion ar gyfer y swyddi gwag tan y bydd Cynghorwyr eraill yn cael eu hethol neu eu cyfethol.

FELLY mae'r Cyngor Sir yn unol â'r pwerau a roddwyd iddo gan Adran 91(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn penodi'r unigolyn canlynol fel Aelod o Gyngor Tref Bodelwyddan tan y cynhelir etholiad neu fod Cynghorwyr newydd yn cael eu cyfethol er mwyn llenwi'r swyddi gwag a chreu ac ail-sefydlu'r cworwm ar y Cyngor Plwyf yn dilyn ei benodiad nes daw'r Gorchymyn i ben:

- Y Cynghorydd Richard Mainon (Cynghorydd ar gyfer Ward Bodelwyddan)

Mae SÊL GYFFREDIN Cyngor Sir Ddinbych wedi'i gosod at hyn
ym mhresenoldeb:-

………………………………………………
Llofnodwr Awdurdodedig